



Crynodeb o Berfformiad a Gweithgareddau y GIG: Awst/Medi 2019

17 Hydref 2019
SFR 100/2019

Darperir data sy'n ymwneud ag amseroedd ymateb ambiwlansys, yr amser sy'n cael ei dreulio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, ac achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal ar gyfer mis Medi 2019.

Darperir data sy'n ymwneud ag amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, amseroedd aros cancer, amseroedd aros diagnostig a therapi, ac atgyfeirio cleifion allanol ar gyfer mis Awst 2019.

Crynodeb

Gofal heb ei drefnu: Roedd cyfartaledd y derbyniadau dyddiol i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn uwch ym mis Medi, a dyma oedd yr ail ffigur uchaf yn ystod y 12 mis blaenorol. Roedd canran y cleifion sy'n treulio llai na 4 awr yno wedi gostwng, a nifer y cleifion sy'n treulio mwy na 12 awr yno wedi cynyddu. Dyma'r perfformiad gwaethaf i gael ei gofnodi ar gyfer y ddau fesur.

Roedd nifer cyfartalog y galwadau dyddiol i'r gwasanaeth ambiwlans wedi lleihau ym mis Medi, ond cafwyd y ganran uchaf erioed o alwadau yn y categori mwyaf difrifol (galwadau 'coch'). Llwyddwyd i gyrraedd y targed, sef 65%, ar gyfer ymateb i alwadau coch o fewn 8 munud.

Roedd yr amser cyfartalog ar gyfer ymateb ambiwlansys i alwadau coch wedi cynyddu ychydig ym mis Medi. Roedd nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal wedi cynyddu ychydig ym mis Medi.

Gofal wedi'i drefnu: Roedd nifer y cleifion a oedd yn aros yn hirach na'r amser targed am brofion diagnostig a phrofion therapi yn uwch ym mis Awst. Roedd amseroedd aros cyfartalog wedi cynyddu ar gyfer profion diagnostig a phrofion therapi.

Roedd perfformiad o ran atgyfeirio ar gyfer triniaeth wedi dirywio ers y mis diwethaf. Roedd canran is o gleifion yn aros llai na 26 wythnos – y lleiaf ers mis Ionawr 2018. Roedd mwy o gleifion yn aros mwy na 36 wythnos – y mwyaf ers mis Ionawr 2018. Roedd yr amser cyfartalog ar gyfer aros am driniaeth wedi cynyddu.

Rhwng mis Gorffennaf a mis Awst, roedd canran y cleifion a oedd yn dechrau ar driniaeth am ganser o fewn yr amser targed wedi cynyddu ar gyfer cleifion ar y llwybr brys, ond wedi lleihau ar gyfer cleifion nad oeddent ar y llwybr brys ar gyfer cancer. Mae [ystadegau arbrofol](#) ar gyfer un llwybr cancer wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn hefyd.

Y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno gwybodaeth gryno am ddata a gyhoeddwyd yn y meysydd canlynol:

Ambiwlansys, Damweiniau ac Achosion Brys, Oedi wrth Drosglwyddo Gofal (DTCO), Amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth (RTT), Amseroedd aros Diagnostig a Therapi (DATS), Amseroedd aros cancer ac atgyfeirio cleifion allanol.

Mae data ym mhob maes ar gael mewn [adnodd ar-lein](#) sy'n galluogi'r defnyddwyr i ryngweithio â'r data a chwilio drwyddo, ac mewn tablau [StatsCymru](#) manwl. Wrth i ni gyhoeddi ein datganiadau misol ar weithgareddau y GIG ar un diwrnod, bydd y defnyddwyr yn cael darlun mwy cyflawn ac integredig o weithgareddau a pherfformiad, gan roi golwg gyffredinol fwy cydlynol ar y GIG yng Nghymru.

Yn y datganiad hwn

Pwyntiau allweddol	2
Gwybodaeth allweddol am ansawdd	7

Pwyntiau allweddol

Galw a gweithgareddau

Gofal heb ei drefnu (Medi 19)

- Ym mis Medi 2019, cafodd y gwasanaeth ambiwlans 38,641 o alwadau brys, cyfartaledd o 1,288 y diwrnod, i lawr o 1,292 ym mis Awst 2019. Roedd cyfran y galwadau coch wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed, sef 6.0%.
- Mae nifer y galwadau brys i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru wedi bod yn codi'n raddol yn y tymor hir. Ers cychwyn casglu data misol ym mis Ebrill 2006, mae'r galwadau dyddiol ar gyfartaledd wedi codi o lai na 1,000 y diwrnod i rhwng 1,200 a 1,450 y diwrnod. Roedd nifer y galwadau coch dyddiol ar gyfartaledd ym mis Medi 2019 yn 78, pedair galwad yn fwy nag ym mis Awst 2019, a'r ail uchaf i gael ei gofnodi (ers i ddata cymharol fod ar gael am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2015).
- Mae derbyniadau i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn uwch yn ystod misoedd yr haf na'r gaeaf fel arfer. Cafwyd 3,062 o dderbyniadau i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ar gyfartaledd bob dydd ym mis Medi. Mae hyn 2.2 y cant yn uwch nag ym mis Awst 2019 (67 yn fwy o bobl bob diwrnod ar gyfartaledd) a 7.3 y cant yn uwch nag ym mis Medi 2018 (209 yn fwy o bobl bob diwrnod ar gyfartaledd).
- Roedd cyfanswm nifer y derbyniadau i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn ystod y flwyddyn hyd at fis Medi 2019 wedi cynyddu 2.0 y cant ers y flwyddyn flaenorol, ac yn ôl y duedd yn y tymor canolig, mae wedi cynyddu 7.9 y cant o'i gymharu â'r un cyfnod o 12 mis bum mlynedd yn ôl (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2014).
- Ym mis Medi 2019, derbyniwyd 16,325 o gleifion i'r un ysbyty neu i ysbyty gwahanol ar ôl bod mewn adran Damweiniau ac Achosion Brys. Mae hyn 455 yn llai nag ym mis Awst 2019, ond 135 yn fwy nag ym mis Medi 2018. Roedd cleifion 75 oed a hŷn yn cyfrif am 31.8 y cant o'r derbyniadau (5,190).

Gofal wedi'i drefnu (Awst 2019)

- Atgyfeiriwyd cyfartaledd o 3,390 o gleifion allanol bob diwrnod ym mis Awst 2019. Mae hyn 14.9 y cant yn llai o'i gymharu â mis Gorffennaf 2019, a 4.4 y cant yn llai o'i gymharu â mis Awst 2018.
- Nid oedd Cwm Taf yn gallu darparu data ar gyfer llwybrau sydd wedi cau rhwng mis Awst 2018 a mis Mawrth 2019. Mae'r un broblem yn effeithio ar Gwm Taf Morgannwg ac nid ydynt wedi cyflwyno data ar gyfer mis Ebrill 2019 ymlaen. Felly, nid yw'r ffigurau a'r cymariaethau canlynol ar gyfer llwybrau wedi cau yn cynnwys Cwm Taf na Chwm Taf Morgannwg. Nifer y llwybrau cleifion a oedd wedi cau fesul diwrnod gwaith ym mis Awst 2019 oedd 3,505, 10.1 y cant yn llai na mis Gorffennaf 2019. Mae nifer y llwybrau sydd wedi cau fesul diwrnod gwaith yn amrywio drwy gydol y flwyddyn, gyda'r niferoedd yn dueddol o fod yn is ym mis Awst a

mis Rhagfyr. Roedd 1,004,081 o lwybrau wedi cau yn ystod y 12 mis hyd at fis Awst 2019, sy'n gynydd o 0.2 y cant (1,853 o lwybrau) o'i gymharu â'r 12 mis blaenorol.

- Yn ystod y 12 mis hyd at fis Awst 2019, dechreuwyd trin 8,361 o gleifion a oedd newydd gael gwybod bod canser arnynt drwy'r llwybr brys ar gyfer achosion ag amheuaeth o ganser, cynnydd o 8.9 y cant (686 o gleifion) dros y 12 mis blaenorol a chynnydd o 30.9 y cant (1,974 o gleifion) o'r cyfnod cyfatebol 5 mlynedd yn ôl.
- Yn ystod y 12 mis hyd at fis Awst 2019, dechreuwyd trin 9,141 o gleifion a oedd newydd gael gwybod bod canser arnynt ond nid drwy'r llwybr brys ar gyfer achosion ag amheuaeth o ganser, gostyngiad o 2.3 y cant (217 o gleifion) dros y 12 mis blaenorol a gostyngiad o 6.4 y cant (622 o gleifion) o'r cyfnod cyfatebol 5 mlynedd yn ôl.
- Mae'r ystadegau arbrofol ar gyfer yr un llwybr canser yn dangos bod 13,684 o gleifion wedi dod ar y llwybr ym mis Awst 2019, gostyngiad o 7.6 y cant (1,333 o gleifion) ers mis Gorffennaf. Cyfrifir cleifion ar y llwybrau brys a'r rheini sydd ddim ar y llwybrau brys, yn ogystal â'r un llwybr canser. Darllenwch yr adran nodiadau i gael rhagor o wybodaeth.
- Ym mis Awst 2019, cafodd 1,446 o gleifion a oedd newydd gael diagnosis o ganser eu trin ar yr un llwybr canser, gostyngiad o 3.0 y cant (45 o gleifion) ers mis Gorffennaf.

Perfformiad

Gofal heb ei drefnu (Medi 2019)

- Ym mis Medi 2019, llwyddodd 68.4 y cant o'r ymatebion brys i alwadau lle mae bywyd yn y fantol (galwadau 'coch') i gyrraedd o fewn 8 munud, sy'n uwch na'r targed o 65 y cant, ond i lawr o 69.0 y cant ym mis Awst 2019, ac o 73.9 y cant ym mis Medi 2018. Dyma'r trydydd mis o'r bron i berfformiad fod o dan 70 y cant.
- Treuliodd 75.0 y cant o gleifion (68,928 o gleifion) lai na 4 awr ym mhob cyfleuster gofal mewn argyfwng, o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau. Mae hyn yn ostyngiad o 2.2 pwynt canran ers mis Awst 2019 ac yn 5.3 pwynt canran yn is nag ym mis Medi 2018, a dyma'r ganran isaf i gael ei chofnodi. Mae'r targed o 95 y cant yn parhau i gael ei fethu.
- Treuliodd 5,708 o gleifion 12 awr neu ragor mewn cyfleuster gofal mewn argyfwng, o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau. Mae hyn yn gynydd o 861 o gleifion (neu 17.8 y cant) o'i gymharu â mis Awst 2019, ac yn gynydd o 1,904 o gleifion (neu 50.1 y cant) o'i gymharu â mis Medi 2018. Dyma'r lefel uchaf i gael ei chofnodi.

Gofal wedi'i drefnu (Awst 2019)

- Erbyn diwedd mis Awst 2019, roedd 467,681 o lwybrau cleifion yn aros i ddechrau eu triniaeth, y nifer uchaf erioed (ers i ddata cymharol ddechrau bod ar gael ym mis Medi 2011). O'r rhain, roedd 85.7 y cant (400,614) wedi bod yn aros am lai na 26 wythnos, sy'n is na'r

targed o 95 y cant, ac roedd 19,100 (4.1 y cant) wedi bod yn aros am dros 36 wythnos o'r dyddiad y cafodd yr ysbyty eu llythyr atgyfeirio. Roedd y ganran a oedd yn aros llai na 26 wythnos wedi gostwng 1.6 pwynt canran ers y mis diwethaf, a dyma'r isaf ers mis Ionawr 2018. Roedd nifer y llwybrau a oedd yn aros dros 36 wythnos wedi cynyddu 3,557 (22.9 y cant yn uwch), a dyma'r nifer uchaf ers mis Ionawr 2018.

- Mae perfformiad rhwng yr atgyfeiriad a dechrau'r driniaeth o'i gymharu â'r ddau darged wedi bod yn eithaf sefydlog ers dechrau 2016, gyda'r ganran sy'n dechrau triniaeth o fewn 26 wythnos yn amrywio rhwng 85 ac 89 y cant fel arfer.
- Ers mis Ionawr 2014, y duedd sydd wedi'i gweld yw gostyngiad cyffredinol yn nifer y bobl sy'n aros dros 8 wythnos am wasanaethau diagnostig penodol. Fodd bynnag, cynyddodd y nifer 22.4 y cant, o 4,158 ym mis Gorffennaf 2019 i 5,091 ym mis Awst 2019.
- Cafwyd cynnydd yn ystod y mis yn nifer y bobl a oedd yn aros dros 14 wythnos am wasanaethau therapi penodol, o 316 ym mis Gorffennaf 2019 i 460 ym mis Awst 2019. Ers mis Chwefror 2018, mae nifer y bobl sy'n aros dros 14 wythnos wedi bod yn is na 500.
- Ym mis Awst 2019, dechreuwyd triniaeth ddiffiniol ar gyfer 81.7 y cant o gleifion (586 allan o 717) a oedd newydd gael gwybod bod cancer arnynt drwy'r llwybr brys ar gyfer achosion ag amheuaeth o ganser, a hynny o fewn yr amser targed o 62 diwrnod. Mae hyn o dan y targed o 95 y cant, ond 2.0 pwynt canran yn uwch nag ym mis Gorffennaf 2019.
- Ar gyfer y 12 mis diwethaf hyd at fis Awst 2019, roedd 83.8 y cant o gleifion a oedd newydd gael gwybod bod cancer arnynt drwy'r llwybr brys ar gyfer achosion ag amheuaeth o ganser wedi dechrau ar driniaeth ddiffiniol o fewn yr amser targed o 62 diwrnod. Mae hyn 2.8 pwynt canran yn is na'r 12 mis blaenorol a 5.0 pwynt canran yn is na'r cyfnod 12 mis cyfatebol 5 mlynedd yn ôl.
- Ym mis Awst 2019, dechreuwyd triniaeth ddiffiniol ar gyfer 96.6 y cant o gleifion (704 allan o 729) a oedd newydd gael gwybod bod cancer arnynt ond nid drwy'r llwybr brys, a hynny o fewn yr amser targed o 31 diwrnod. Mae hyn yn is na'r targed o 98 y cant a 0.9 pwynt canran yn is nag ym mis Gorffennaf 2019. Mae'r duedd wedi bod yn sefydlog ar y cyfan dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Ar gyfer y 12 mis diwethaf hyd at fis Awst 2019, dechreuwyd triniaeth ddiffiniol ar gyfer 97.1 y cant o gleifion a oedd newydd gael gwybod bod cancer arnynt ond nid drwy'r llwybr brys, a hynny o fewn yr amser targed o 31 diwrnod. Mae hyn 0.1 pwynt canran yn uwch na'r 12 mis blaenorol, ond 1.0 pwynt canran yn is na'r cyfnod 12 mis cyfatebol 5 mlynedd yn ôl.
- Ym mis Awst 2019, roedd 75.5 y cant o gleifion (1,092 allan o 1,446) a oedd newydd gael diagnosis o ganser ar yr un llwybr cancer wedi dechrau triniaeth o fewn 62 diwrnod o'r cyfnod amheuaeth (gydag unrhyw oedi), sydd 0.5 pwynt canran yn uwch nag ym mis Gorffennaf.
- Ar ôl defnyddio casgliad data presennol Gwasanaethau Iechyd Meddwl Arbenigol Plant a'r Glasoed (sCAMHS) i nodi materion, rydym wedi tynnu'n ôl y data a oedd wedi cael ei gyhoeddi'n flaenorol oherwydd ein bod yn gwybod nad yw'n rhoi adlewyrchiad cywir o'r

niferoedd aros. Rydym yn gweithio gyda byrddau iechyd er mwyn casglu a chyhoeddi gwybodaeth reoli interim cyn gynted â phosib. Rhoddir mwy o wybodaeth yn y nodiadau.

Gwybodaeth gyd-destunol

Mae'r siartiau yn yr adnodd ar-lein yn darparu gwybodaeth ychwanegol am weithgareddau sy'n ategu'r wybodaeth am berfformiad y GIG a ddangosir uchod. Rhoddir rhai enghreifftiau isod.

Mae rhai siartiau'n cynnwys amseroedd canolrif a chymedr. Er enghraifft, mewn perthynas ag amseroedd ymateb ambiwlansys:

- Yr amser ymateb **canolrif** yw'r amser canol pan fydd yr holl ymatebion i argyfwng yn cael eu galw mewn trefn o'r cyflymaf i'r arafaf, felly bydd hanner yr holl ymatebion i argyfwng yn cyrraedd o fewn yr amser hwn. Mae hyn yn cael ei ddefnyddio yn lle'r cymedr fel arfer gan ei fod yn llai tebygol na'r cymedr o arwain at werthoedd eithaf.
- Yr amser ymateb **cymedr** yw cyfanswm yr amser ar gyfer pob ymateb i argyfwng wedi'i rannu â nifer yr ymatebion i argyfwng. Mae'r ambiwlansys hynny sy'n cymryd mwy o amser i gyrraedd eu cyrchfan yn fwy tebygol o effeithio ar y cymedr.

Gofal heb ei drefnu

- Er na lwyddwyd i gyrraedd y targed o 4 awr ar gyfer yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys ers i'r targed gael ei gyflwyno, mae'r amser canolrif mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys wedi bod yn weddol sefydlog yn ystod y blynyddoedd diweddar – rhwng 2 awr a 2 awr 30 munud yn gyffredinol; ym mis Medi 2019, 2 awr 35 munud oedd yr amser canolrif, i fyny o 2 awr 24 munud ym mis Awst 2019. Mae'r amser canolrif a dreulir mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn amrywio yn ôl oedran, gyda phlant yn treulio rhwng 1 awr 30 munud a 2 awr mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ar gyfartaledd, a chleifion hŷn (85 oed a hŷn) yn treulio rhwng 3 awr 30 munud a 4 awr mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ar gyfartaledd.
- 5 munud 39 eiliad oedd y canolrif ar gyfer amser ymateb y gwasanaeth ambiwlans i alwadau coch ym mis Medi 2019, i fyny o 5 munud 36 eiliad ym mis Awst 2019. Ymatebwyd i ychydig o dan hanner (49.0 y cant) o'r galwadau ambr o fewn 30 munud.
- Er bod union nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn amrywio bob mis, gostwng yw'r duedd wedi bod ers 2004 ond mae'r nifer wedi bod yn eithaf cyson dros y blynyddoedd diwethaf. Gwelwyd oedi gyda 490 o gleifion ym mis Medi 2019, i fyny fymryn o 489 ym mis Awst 2019 a dyma'r ffigur uchaf ers mis Hydref 2016. Roedd y cyfartaledd tri-mis rhwng mis Gorffennaf a mis Medi yn 466, o'i gymharu â'r cyfartaledd tri-mis o 447 rhwng mis Mehefin a mis Awst.

Gofal wedi'i drefnu

- Er na lwyddwyd i gyrraedd y targedau mewn perthynas â'r amser aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth, roedd yr amser aros canolrif i ddechrau triniaeth yn 10.1 wythnos ym mis Awst 2019, i fyny o 9.4 wythnos ym mis Gorffennaf 2019. Mae'r amser aros canolrif yn gyffredinol wedi bod yn tua 10 wythnos ers diwedd 2013.
- Yr amser aros canolrif ar gyfer gwasanaethau diagnostig oedd 3.2 wythnos ym mis Awst 2019, i fyny o 2.7 wythnos ym mis Gorffennaf 2019, a'r amser aros canolrif ar gyfer gwasanaethau therapi oedd 4.2 wythnos, i fyny o 3.5 wythnos ym mis Gorffennaf 2019. Mae'r amser aros canolrif ar gyfer y rheini sy'n aros am wasanaethau diagnostig wedi gostwng ar y cyfan ers 2014. Mae'r amseroedd aros canolrif ar gyfer y rheini sy'n aros am wasanaethau therapi wedi cynyddu rhwng 2012 a 2017, ond wedi gostwng ers hynny.

Gwybodaeth allweddol am ansawdd

Nodiadau ar gyfer cyhoeddiad y mis hwn

Awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr yn symud bwrdd iechyd: Mae darpariaeth gwasanaeth iechyd ar gyfer preswylwyr awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr wedi symud o Abertawe Bro Morgannwg i Gwm Taf ar 1 Ebrill 2019. Mae'r [datganiad ar y cyd](#) hwn yn rhoi rhagor o fanylion. Cafodd enwau'r byrddau iechyd eu cadarnhau yn y [datganiad hwn](#) ac mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi newid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ac mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi newid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Mae'r holl setiau data nawr yn cael eu cyhoeddi ar y sail newydd (dechreuodd data ar gyfer gofal heb ei drefnu gael ei gyhoeddi ar y sail newydd yn natganiad mis Mai 2019 a bydd hynny'n digwydd ar gyfer gofal wedi'i drefnu o'r datganiad hwn ymlaen). Mae dadansoddiadau'r bwrdd iechyd lleol ar [StatsCymru](#) a'r [dangosfwrdd rhwyngweithiol](#) yn adlewyrchu'r newid newydd hwn i'r ffiniau. Gan mai crynodebau data ar berfformiad yw'r rhain, nid ydym wedi ôl-ddyddio y data hanesyddol ar gyfer y byrddau iechyd newydd. Byddwn yn rhoi'r gorau i gyhoeddi data ar gyfer y ffiniau blaenorol.

Atgyfeirio i dderbyn triniaeth: Nid yw Cwm Taf wedi llwyddo i ddarparu data ar gyfer llwybrau wedi'u cau ers mis Awst 2018 yn sgil problemau TG ar ôl diweddaru meddalwedd. Felly, nid yw'r rhifau a'r cymariaethau ar gyfer llwybrau wedi'u cau o ddatganiad Hydref 2018 ymlaen yn cynnwys Cwm Taf. Mae'r bwrdd iechyd wrthi'n trwsio'r broblem. Mae'r data ar gyfer Cwm Taf ar gyfer y misoedd blaenorol ar gael ar StatsCymru.

Atgyfeiriadau ac atgyfeirio i dderbyn triniaeth: I sicrhau mwy o gysondeb ar draws data'r byrddau iechyd, mae'r holl godau triniaeth newydd wedi'u newid yn ôl i'r hyn oedd yn cyfateb iddynt cyn mis Ebrill 2016. Mae hyn nawr wedi'i weithredu ar gyfer pob data atgyfeirio i dderbyn triniaeth hanesyddol. Caiff hyn ei roi ar waith nes y bydd pob bwrdd iechyd yn gallu darparu adroddiadau gan ddefnyddio'r codau newydd yn gyson. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch yr [Hysbysiad Newid Set Data \(2014/08\)](#).

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS): Roedd rhai byrddau iechyd yn adrodd bod nifer isel, ac mewn rhai achosion, dim cleifion o gwbl yn aros am wasanaethau CAMHS arbenigol. Roedd y dull o gasglu'r data hwn yn seiliedig ar atgyfeiriadau gan feddygon teulu i ymgynghorwyr yn unig. Fodd bynnag, mae'r byrddau iechyd hynny sy'n gweithredu gyda model gwasanaeth integredig yn golygu nad oes unrhyw atgyfeiriadau uniongyrchol gan feddygon teulu i CAMHS arbenigol, ac felly nid ydynt yn cael eu cyfrif o dan y diffiniadau presennol. Gan nad yw'r data'n rhoi adlewyrchiad cywir o'r rheini sy'n aros, rydym wedi tynnu'n ôl y data a gyhoeddwyd yn flaenorol gan StatsCymru. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r data a gaiff ei gasglu ar gyfer CAMHS arbenigol ar frys. Rydym yn bwriadu cyhoeddi gwybodaeth reoli dros dro cyn gynted â phosibl.

Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys: Cafodd Uned Mân-anafiadau Singleton ei chau yn ddiweddar wrth i waith ailwampio gael ei wneud (gweler y [datganiad i'r wasg](#)) a does dim derbyniadau i'r adran Damweiniau ac Achosion Brys wedi bod ers mis Tachwedd 2018. Ers y

datganiad ystadegol mis Ebrill 2019, ni chafodd unrhyw ddata a gyflwynwyd ar gyfer Singleton ar ôl mis Medi 2018 ei gynnwys ar ôl cael cyngor gan y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, ers datganiad ystadegol mis Mehefin 2019, mae data a gyflwynwyd ar gyfer Singleton yn cael ei gynnwys hyd at fis Tachwedd 2018, ar ôl cael cyngor diweddarach gan y bwrdd iechyd. Gan fod nifer y derbyniadau i'r adran damweiniau ac achosion brys yn Singleton yn gymharol isel ym mis Medi a mis Hydref, nid yw'n effeithio o gwbl ar y duedd gyffredinol yng Nghymru.

Un Llwybr Cancer: Mae Un Llwybr Cancer yn gasgliad newydd o amseroedd aros [a gyhoeddwyd yn 2018](#) gan Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r dull hwn o gasglu yn mesur amseroedd aros o'r cyfnod pan fydd amheuaeth o ganser yn hytrach nag o'r amser y bydd yr ysbyty'n derbyn eu hatgyfeiriad.

Mae trydydd mis o ddata Un Llwybr Cancer yn cael ei gyhoeddi yn y datganiad ystadegol hwn. Mae'r data'n cynnwys nifer y cleifion sy'n dod ar y llwybr, nifer y cleifion sy'n cael triniaeth, a nifer a chanran y cleifion sy'n cael triniaeth o fewn y targed o 62 diwrnod (gydag unrhyw oedi). Ar hyn o bryd, adroddir am hyn ochr yn ochr â'r Llwybr Achosion Brys lle ceir Amheuaeth o Ganser ac nid drwy'r Llwybr Achosion lle ceir Amheuaeth o Ganser, ond y bwriad yn y pendraw yw y bydd hyn yn disodli'r ddwy ffordd arall o fesur. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar yr [Hysbysiad Newid Set Data](#). Sylwch mai dim ond cleifion y nodwyd nad oedd ganddynt ganser yn ddiweddarach sydd wedi'u cynnwys yn ffigurau Powys ar gyfer y rhai sy'n dod ar y llwybr.

Dyma'r targedau presennol ar gyfer amseroedd aros cancer:

Llwybr Brys lle ceir Amheuaeth o Ganser: Ni ddylai 95% o gleifion aros mwy na 62 diwrnod am driniaeth. Mae cleifion sydd ar y llwybr hwn wedi cael eu cyfeirio ar ôl cael gwybod yr amheuir bod cancer arnynt e.e. drwy feddyg teulu.

Nid drwy'r Llwybr Brys lle ceir Amheuaeth o Ganser: Ni ddylai 98% o gleifion aros mwy na 31 diwrnod am driniaeth. Mae cleifion ar y llwybr hwn wedi cael eu cyfeirio yn dilyn diagnosis damweiniol e.e. yn ystod triniaeth arall.

Mae'r rhain yn mesur yr amser rhwng y diagnosis a'r driniaeth.

“Un Llwybr Cancer” yw'r llwybr newydd – mae'n cynnwys pob un claf o'r eiliad yr amheuir bod cancer, nid drwy ddiagnosis. Yr amser targed yw 62 diwrnod, o'r amheuaeth i gychwyn y driniaeth.

Addasiadau Cancer: Gellir tynnu claf oddi ar y rhestr aros os nad yw'r claf yn gallu symud ymlaen i gam nesaf y llwybr, naill ai am resymau meddygol neu gymdeithasol. Bydd hyn yn para am y cyfnod na fydd y claf ar gael. Rôl y bwrdd iechyd yw pwysleisio pa mor frys y mae ar y claf angen triniaeth a sicrhau bod y claf yn deall canlyniadau unrhyw oedi.

Ffynonellau

Mae data ymateb ambiwlansys yn cael ei ddarparu gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru. Mae data amseroedd aros cancer yn cael ei ddarparu gan y byrddau iechyd lleol yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru. Mae'r holl ddata arall sydd wedi'i grynhoi yma yn cael ei gasglu oddi wrth fyrddau iechyd lleol gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Mae manylion llawn ar gael yn yr Adroddiadau Ansawdd ar gyfer pob maes gwasanaeth (gweler y dolenni isod).

Amseroldeb

Nid oes gan bob set ddata yr un amserlenni ar gyfer prosesu. I sicrhau bod y data ar gael cyn gynted ag y bo modd, rydym yn cyhoeddi data gofal heb ei drefnu ar gyfer mis Chwefror, dyweder, gyda'r data gofal wedi'i gynllunio ar gyfer mis Ionawr.

Data

Adnodd ar-lein - mae adnodd rhyngweithiol ar-lein wedi'i ddatblygu gyda thair adran:

- Galw/Gweithgarwch – ee, derbyniadau i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, galwadau i ambiwlansys, atgyfeiriadau
- Perfformiad – ee, perfformiad yn erbyn targedau adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, ac ati
- Cyd-destun – ee, amser canolrif mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, amseroedd ymateb canolrif ambiwlansys, amseroedd aros canolrif rhwng atgyfeirio a thriniaeth

Mae modd gweld, defnyddio neu lwytho rhagor o setiau data manwl i lawr drwy ein API data agored ar [StatsCymru](#).

Cyfrifir newidiadau pwynt canran gan ddefnyddio ffigurau heb eu talgrynnu.

Mesur perfformiad

Mae [Fframwaith Cyflawni GIG Cymru 2018-19](#) yn cael ei ddefnyddio i fesur cyflawniad yn ystod 2018-19.

Amseroedd ymateb ambiwlansys

Nodiadau: Fel y [cyhoeddwyd mewn datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd](#), rhoddwyd model ymateb clinigol newydd ar waith yng Nghymru o 1 Hydref 2015. Deuddeg mis oedd hyd y treial ar y cychwyn ond cafodd ei ymestyn am 6 mis arall, ond, ar ôl cael adroddiad gwerthuso annibynnol a gomisiynwyd gan y Cyd-bwyllgor Gwasanaethau Ambiwlsans Brys, rhoddwyd y model ymateb clinigol ar waith (Chwefror 2017). Gweler yr [adroddiad ansawdd](#) i gael rhagor o fanylion.

Categoriâu galwadau a thargedau:

Coch: Lle mae bywyd rhywun yn y fantol (mae rhywun mewn perygl o farw'n gyflym, fel ataliad ar y galon). Y targed yng Nghymru yw ymateb i 65% o'r galwadau hyn mewn 8 munud.

Ambr: Difrifol, ond nid yw bywyd rhywun yn y fantol (cleifion fydd yn aml yn gorfod cael triniaeth yn y fan a'r lle, ac yna'n gorfod mynd i'r ystyby). Nid oes targed amser ar gyfer galwadau ambr.

Gwyrdd: Heb fod yn frys (yn aml, bydd gwasanaethau iechyd eraill ac asesiad clinigol dros y ffôn yn gallu rheoli'r achosion hyn). Nid oes targed amser swyddogol ar gyfer y galwadau hyn.

Mae categori galwad yn cael ei bennu ar sail yr wybodaeth a roddir gan y galwr yn ei ymatebion i set o gwestiynau wedi'u sgrïptio, sydd yna'n cael eu brysennu'n awtomatig gan y system Pennu Blaenoriaethau Meddygol (MPDS). Rhoddir hyd at ddau funud i'r rheini sy'n cymryd yr alwad

adnabod natur cyflwr y claf a pha mor ddifrifol ydyw (ar gyfer y galwadau hynny lle nad yw bywyd yn y fantol). Bydd ambiwlans neu adnodd priodol arall yn cael ei ddanfôn cyn gynted ag y bydd y cyflwr a'i ddifrifoldeb wedi'i bennu. Gyda galwadau hynod ddwys, gall hyn fod tra mae'r galwr yn dal ar y ffôn. Mae dau achlysur lle mae modd newid blaenoriaeth galwad; pan fydd gwybodaeth newydd gan y galwr yn cael ei hasesu drwy'r system MPDS, neu pan fydd nyrs neu barafeddyg wedi casglu rhagor o wybodaeth am gyflwr y claf dros y ffôn.

Diwygiadau: Mae unrhyw ddiwygiadau i'r data yn cael eu nodi yn y 'Nodiadau ar gyfer cyhoeddiad y mis hwn' ac yn yr wybodaeth sy'n cyd-fynd â chiwbiau StatsCymru pob mis.

Cymaroldeb a chydlyniad: Mae gwledydd eraill y DU hefyd yn mesur amseroedd ymateb ambiwlansys. Ond, mae'r allbynnau'n wahanol mewn gwahanol wledydd oherwydd eu bod wedi cael eu cynllunio i helpu i fonitro polisïau a ddatblygwyd ar wahân gan bob llywodraeth. Mae angen ymchwilio ymhellach i weld a yw'r gwahaniaethau diffiniol yn cael effaith arwyddocaol ar gymaroldeb y data.

[Gwasanaethau ambiwlans: StatsCymru](#)

[Gwasanaethau ambiwlans: Adroddiad ansawdd](#)

[Gwasanaethau ambiwlans: Cyhoeddiad blynyddol](#)

Amser a dreulir mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys

Nodiadau: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru sy'n darparu'r data hwn o Set Ddata Adran Achosion Brys (EDDS). Dyma ffynhonnell lawn o ddata lefel cleifion ar dderbyniadau i gyfleusterau gofal mewn argyfwng yng Nghymru ac mae'n cael ei defnyddio'n bennaf ar gyfer targedau perfformiad.

Targedau: Amser a dreulir mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys:

- Dylai 95 y cant o gleifion newydd dreulio llai na 4 awr mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau
- Dylid cael gwared ar achosion o aros am 12 awr neu fwy mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys

Diwygiadau: Mae rhai ffigurau'n debygol o gael eu diwygio yn y misoedd nesaf – caiff hyn ei wneud ar StatsCymru.

Cymaroldeb a chydlyniad: Mae'r ffigurau ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn Ystadegau Gwladol. Mae pedair gwlad y DU yn cyhoeddi gwybodaeth am yr amser a dreulir mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, er mae modd labelu hyn o dan yr Adran Achosion Brys (fel yn yr Alban) neu Ofal mewn Argyfwng (fel yng Ngogledd Iwerddon). Nid oes modd cymharu'r ystadegau a gyhoeddir yn llwyr oherwydd: eu bod wedi cael eu cynllunio i fonitro targedau a ddatblygwyd ar wahân ym mhob gwlad; bod y ddarpariaeth a'r drefn categoreiddio gwasanaethau gofal heb ei drefnu yn amrywio ar draws y DU; bod y systemau sy'n casglu'r data yn wahanol. Gweler yr [adroddiad ansawdd](#) i gael rhagor o fanylion.

[Amser a dreulir mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys: StatsCymru](#)

[Amser a dreulir mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys: Adroddiad ansawdd](#)

[Amser a dreulir mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys: Cyhoeddiad blynyddol](#)

Amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth

Nodiadau: Mae'r llwybr rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn cynnwys yr amser a arhoswyd o gael atgyfeiriad i fynd i'r ysbyty i gael triniaeth ac mae'n cynnwys yr amser a dreulir yn aros am unrhyw apwyntiadau, profion, sganiau neu driniaethau eraill yn yr ysbyty sydd eu hangen cyn cael triniaeth. Mae diffiniadau o'r termau a ddefnyddir a'r wybodaeth am ansawdd ar gael yn yr [Adroddiad ansawdd](#).

Targedau: Amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth:

- 95 y cant o gleifion yn aros llai na 26 wythnos rhwng yr atgyfeirio a chael triniaeth
- Dim cleifion yn aros yn hirach na 36 wythnos am driniaeth

Diwygiadau: Mae unrhyw ddiwygiadau i'r data yn cael eu nodi yn y 'Nodiadau ar gyfer cyhoeddiad y mis hwn' ac yn yr wybodaeth sy'n cyd-fynd â chiwbiau StatsCymru pob mis.

Cymaroldeb a chydlynid: Mae Cymru, Lloegr a'r Alban yn cyhoeddi amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth – sy'n mesur llwybr cyflawn y claf o'r atgyfeiriad cychwynol ee, gan feddyg teulu, at gael ei ryddhau neu at gael triniaeth y cytunir arni – yn ogystal â chamau penodol yn yr amseroedd aros am driniaeth. Mae Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi ystadegau amseroedd aros ar gyfer cleifion mewnol, cleifion allanol a chamau diagnostig ar gyfer triniaeth – sy'n mesur amseroedd aros ar gyfer y gwahanol gamau mewn llwybr claf, fel arfer yr amser aros penodol ar gyfer triniaeth i gleifion mewnol, diagnostig neu gleifion allanol, neu ar gyfer gwasanaethau penodol fel awdioleg.

O ran yr amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth, er bod y cysyniadau yn debyg yng Nghymru, Lloegr a'r Alban o ran mesur yr amseroedd aros rhwng yr amser y bydd yr ysbyty yn cael yr atgyfeiriad a dechrau'r driniaeth, a'r mathau o lwybrau cleifion sy'n cael eu cynnwys, mae gwahaniaethau amlwg yn y rheolau unigol ynghylch mesur amseroedd aros. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd 'y cloc yn stopio neu'n oedi', gydag eithriadau, a'r arbenigeddau sy'n cael eu cynnwys.

[Amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth: StatsCymru](#)

[Amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth: Adroddiad ansawdd](#)

[Amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth: Cyhoeddiad blynyddol](#)

Amseroedd aros Diagnostig a Therapi (DATS)

Targedau: Amseroedd aros i gael gafael ar wasanaethau diagnostig a therapi (safonau gweithredu ar gyfer amseroedd aros hiraf):

- Yr amser aros hiraf i gael profion diagnostig penodol yw 8 wythnos

- Yr amser aros hiraf i gael gwasanaethau therapi penodol yw 14 wythnos.

Diwygiadau: Mae unrhyw ddiwygiadau i'r data yn cael eu nodi yn y 'Nodiadau ar gyfer cyhoeddiad y mis hwn' ac yn yr wybodaeth sy'n cyd-fynd â chiwbiau StatsCymru pob mis.

Cymaroldeb a chydlynid: Gweler yr amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth

[Amseroedd aros Diagnostig a Therapi: StatsCymru](#)

[Amseroedd aros Diagnostig a Therapi: Adroddiad ansawdd](#)

[Amseroedd aros Diagnostig a Therapi: Cyhoeddiad blynyddol](#)

Amseroedd aros cancer

Nodiadau: Mae cleifion sydd â chanser yn cael eu rhannu'n ddau grŵp gwahanol (yn unol â'r safonau cancer).

Y rheini sy'n cael eu hatgyfeirio drwy'r llwybr brys ar gyfer achosion ag amheuaeth o ganser:

- Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio o ofal sylfaenol (ee, gan feddyg teulu) i ysbyty fel achosion brys ag amheuaeth o ganser, a bod hyn wedyn yn cael ei gadarnhau fel achos brys gan yr ymgynghorydd meddygol neu gan aelod dynodedig o'r Tîm Amlddisgyblaethol.

Y rheini nad ydynt yn cael eu hatgyfeirio drwy'r llwybr brys ar gyfer achosion ag amheuaeth o ganser:

- Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cleifion sydd â chanser (ni waeth beth yw eu llwybr atgyfeirio), nad ydynt wedi'u cynnwys yn barod fel cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio fel achos brys ag amheuaeth o ganser.

Targedau: Amseroedd aros cancer:

- Bydd o leiaf 95 y cant o gleifion sy'n cael gwybod bod cancer arnynt, drwy'r llwybr brys ar gyfer achosion ag amheuaeth o ganser, yn dechrau triniaeth ddiffiniol o fewn 62 diwrnod o gael eu hatgyfeirio.
- Bydd o leiaf 98 y cant o gleifion sydd newydd gael gwybod bod cancer arnynt, ond nid drwy'r llwybr brys, yn dechrau triniaeth ddiffiniol o fewn 31 diwrnod o'r penderfyniad i drin y cancer (ni waeth beth yw'r llwybr atgyfeirio).

Diwygiadau: Mae unrhyw ddiwygiadau i'r data yn cael eu nodi yn y 'Nodiadau ar gyfer cyhoeddiad y mis hwn' ac yn yr wybodaeth sy'n cyd-fynd â setiau data StatsCymru pob mis.

Cymaroldeb a chydlynid: Mae gwledydd eraill y DU hefyd yn mesur amseroedd aros cancer. Ond, mae'r allbynnau'n wahanol mewn gwahanol wledydd oherwydd eu bod wedi cael eu cynllunio i helpu i fonitro polisiau a ddatblygwyd ar wahân gan bob llywodraeth. Byddai angen ymchwilio ymhellach i weld a yw'r gwahaniaethau diffiniol yn cael effaith arwyddocaol ar gymaroldeb y data.

[Amseroedd aros cancer: StatsCymru](#)

[Amseroedd aros cancer: Adroddiad ansawdd](#)

[Amseroedd aros cancer: Cyhoeddiad blynyddol](#)

Oedi wrth drosglwyddo gofal (DTCOC)

Diwygiadau: Mae unrhyw ddiwygiadau i'r data yn cael eu nodi yn y 'Nodiadau ar gyfer cyhoeddiad y mis hwn' ac yn yr wybodaeth sy'n cyd-fynd â chiwbiau StatsCymru pob mis.

Cymaroldeb a chydlyniad: Mae ystadegau tebyg yn cael eu casglu yn Lloegr a'r Alban, ond mae'n bosib y bydd y manylion yn wahanol. Dylid edrych ar y canllawiau manwl sydd ar gael ar wefan pob gwlad cyn dechrau defnyddio'r ystadegau hyn fel ffordd o gymharu.

[Oedi wrth drosglwyddo gofal: StatsCymru](#)

[Oedi wrth drosglwyddo gofal: Adroddiad ansawdd](#)

[Oedi wrth drosglwyddo gofal: Cyhoeddiad blynyddol](#)

Atgyfeirio cleifion allanol

Targedau: dim

Diwygiadau: O fis Rhagfyr 2015 ymlaen, nod ein polisi diwygio yw edrych yn ôl ar bob 12 mis ar sail fisol, a chynnal adolygiad llawn o'r ffigurau atgyfeirio yn ôl i fis Ebrill 2012 ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol (pan mai'r data ar gyfer mis Mawrth mewn unrhyw flwyddyn benodol yw'r data diweddaraf sydd ar gael i ni).

Cymaroldeb a chydlyniad: Mae gwybodaeth debyg ar gael o rannau eraill o'r DU ond nid oes modd cymharu'r data yn llwyr oherwydd safonau a diffiniadau lleol ym mhob ardal. Mae diffiniadau a safonau y cytunwyd arnynt o fewn Cymru yn rhoi sicrwydd bod y data yn gyson ar draws y Byrddau Iechyd Lleol.

[Atgyfeirio cleifion allanol: StatsCymru](#)

[Atgyfeirio cleifion allanol: Adroddiad ansawdd](#)

Cymaroldeb

Mae pedair gwlad y DU yn cyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth o ystadegau gweithgareddau a pherfformiad y GIG. Nid oes modd cymharu'r ystadegau a gyhoeddir yn llwyr oherwydd: eu bod wedi cael eu cynllunio i fonitro targedau a ddatblygwyd ar wahân ym mhob gwlad; bod y ddarpariaeth a'r drefn categoreiddio gwasanaethau gofal heb ei drefnu yn amrywio ar draws y DU. Mae ystadegwyr ym mhob un o bedair gwlad y DU wedi cydweithio fel rhan o Grŵp Amseroedd Aros Cymharol y DU. Nod y grŵp oedd edrych ar draws yr ystadegau a gyhoeddwyd am iechyd, yn benodol amseroedd aros, a llunio cymhariaeth o (i) beth sy'n cael ei fesur ym mhob gwlad, (ii) sut mae'r ystadegau'n debyg a (iii) ymhle mae'r gwahaniaethau allweddol. Mae'r wybodaeth honno ar gael ar wefan [Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth](#). Mae gwybodaeth am ambiwlansys ar gael yma:

[Gwasanaethau ambiwlans yn Lloegr](#)

[Gwasanaethau ambiwlans yn yr Alban](#)

[Gwasanaethau ambiwlans yng Ngogledd Iwerddon](#)

Statws Ystadegau Gwladol

Mae'r Awdurdod Ystadegau Deyrnas Unedig <<https://www.statisticsauthority.gov.uk/>> wedi dynodi bod chwech o'r saith set o ystadegau a gyflwynir yma yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#). Nid yw [Atgyfeiriadau GIG ar gyfer apwyntiadau cyntaf fel cleifion allanol](#) yn cael eu cyfri'n Ystadegau Gwladol ar hyn o bryd.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ein hystadegau yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus, a'n cyfrifoldeb ni yw sicrhau y cydymffurfir â'r safonau hyn.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os down i bryderu ynghylch p'un a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

"Amser aros canser GIG", "Gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru", "Amser a dreuliwyd yn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys GIG", "Amseroedd atgyfeiriad am driniaeth GIG", "Amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a therapi GIG" a "Oedi wrth drosglwyddo gofal yng Nghymru" yn Ystadegau Gwladol.

Cadarnhawyd y statws parhaus o'r ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol yn 2011 yn dilyn [gwiriad cydymffurfiaeth gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau](#).

[Cynhaliwyd yr asesiad llawn diweddaraf o'r ystadegau hyn yn erbyn y Cod Ymarfer](#) yn 2011.

Ystadegau Arbrofol

Ystadegau Arbrofol yw'r ystadegau sy'n gysylltiedig ag Un Llwybr Canser. Maent yn cael eu defnyddio i roi gwybod i ddefnyddwyr am y data a'r ffaith fod yr ystadegau yr adroddir arnynt yn dal i gael eu datblygu ac y gallai fod problemau o ran ansawdd y data. Fodd bynnag, mae'r ystadegau'n dal i fod o werth ar yr amod fod defnyddwyr yn eu hystyried yng nghyd-destun gwybodaeth am ansawdd y data sydd ar gael. Wrth i'r set ddata aeddfedu, bydd cwmpas ac ansawdd y data yr adroddir arnynt yn gwella, a gellir defnyddio'r data ar gyfer amrywiaeth eang o resymau buddiol.

Mae'r rhain yn ystadegau swyddogol sy'n cael eu cyhoeddi er mwyn cynnwys defnyddwyr a rhanddeiliaid yn y broses o'u datblygu ac fel ffordd o sicrhau ansawdd yn gynnar yn y broses.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â holl agweddau Cod Ymarfer Ystadegau Swyddogol. Rhoddir statws Ystadegau Cenedlaethol iddynt ar ôl i gorff rheoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU eu hasesu. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n bodloni safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at drafodaethau a phenderfyniadau cyhoeddus.

[Gwybodaeth am ddefnyddio ystadegau arbrofol.](#)

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant ar gyfer Cymru, sef: Cymru sy'n fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach, a chyfrifol ar lefel fyd-eang, sydd â chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru wneud y canlynol: (a) cyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Rhoddwyd y 46 dangosydd cenedlaethol gerbron ym mis Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

Gwybodaeth bellach am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau sydd wedi eu cynnwys yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif i gefnogi'r dangosyddion cenedlaethol a gallent gael eu defnyddio gan fyrdau gwasanaethau cyhoeddus mewn cysylltiad â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

Rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen ar gael yn:

<https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig>

Diweddariad nesaf

21 Tachwedd 2019

Hoffem gael adborth gennych

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Gellir anfon yr adborth drwy e-bost i'r cyfeiriad hwn: ystadegau.iechyd@llyw.cymru.

Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael dan y [Drwydded Llywodraeth Agored f.3.0](#), ac eithrio pan nodir fel arall.

